CYPE(4)-01-16 - Papur i'w nodi 4

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-1451-15

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Ionawr 2016

Annwyl Ann,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr ynglŷn â chyllido Canolfannau Cyswllt â Phlant yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae CAFCASS Cymru yn cyllido gwasanaethau cyswllt â phlant yng Nghymru mewn perthynas ag atgyfeiriadau CAFCASS Cymru a wneir yn y system llys teulu.

Mae newidiadau i gymorth cyfreithiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Ebrill 2013, ynghyd â chyflwyno'r Rhaglen Trefniadau Plentyn ym mis Ebrill 2014, wedi gweld gostyngiad o fwy na 60% yn nifer yr atgyfeiriadau gan CAFCASS Cymru i ganolfannau cyswllt â phlant yng Nghymru yn ystod 2014-15 o gymharu â 2013-14. Cafwyd hefyd ostyngiad o 26% yn nifer y ceisiadau cyfraith breifat a gafodd eu clywed gan y llys teulu yn 2014-15.

O ystyried y gostyngiad sylweddol hwn, ym mis Mawrth 2015 cyfarfu CAFCASS Cymru â Chymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt â Phlant, yn ei rôl fel y rheolwr rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau cyswllt â phlant yng Nghymru, a'r holl ddarparwyr presennol i drafod adolygiad arfaethedig o drefniadau cyllido. Esboniwyd na fyddai lefelau cyllido'n parhau ar yr un lefel oni bai bod llwythi gwaith sy'n deillio o atgyfeiriadau CAFCASS Cymru yn cynyddu'n sylweddol. Cafodd yr holl ddarparwyr eu hannog yn gryf i ystyried opsiynau cynaliadwyedd y tu hwnt i ddibynnu ar gyllid y Llywodraeth.

Bu adferiad cyfyngedig iawn o ran atgyfeiriadau CAFCASS Cymru i ddarparwyr cyswllt â phlant yn hanner cyntaf 2015-16, ond mae'r niferoedd yn dal yn isel iawn o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ddiweddar cymeradwyais argymhellion ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol o ran atgyfeiriadau a wneir gan CAFCASS Cymru i wasanaethau cyswllt â phlant yng Nghymru sy'n galluogi CAFCASS Cymru i barhau i gynorthwyo darparwyr presennol yn y gwaith maent yn ei wneud, ond mae'n fwy teg o ran ei ddosbarthiad ac yn adlewyrchu'r gwaith a wneir yn well.

Rwy'n cydnabod yr effaith y byddai'r cynigion cyllido gwreiddiol y gwnaeth CAFCASS Cymru eu trafod gyda darparwyr wedi'i chael ar wasanaethau cyswllt â phlant o ganlyniad i'r gostyngiad sylweddol yn nifer atgyfeiriadau CAFCASS Cymru, sy'n adlewyrchu newidiadau ehangach ym maes cyfiawnder teuluol. I liniaru hyn, bydd darparwyr sydd ar hyn o bryd yn cael cyllid a fydd yn cael llai o dan y fformiwla gyllido newydd yn cael ffi trefniadau pontio ychwanegol untro o £2,000 yn 2016-17. Mae CAFCASS Cymru wedi ysgrifennu at ddarparwyr gwasanaethau cyswllt i amlinellu'r manylion.

Hyderaf y bydd y ffi trefniadau pontio ychwanegol hon yn lleihau effaith gostyngiad mewn cyllid ar ddarparwyr ac yn galluogi pontio mwy llyfn. Bydd hefyd yn rhoi amser ychwanegol i ddarparwyr ystyried opsiynau cynaliadwyedd y tu hwnt i ddibynnu ar gyllid y llywodraeth, a fydd yn hanfodol os bydd niferoedd atgyfeirio CAFCASS Cymru yn parhau'n isel.

Mewn ymateb i'r materion a godwyd am gyllid ariannol i gynorthwyo canolfannau cyswllt ar gyfer gwaith gyda theuluoedd y tu allan i'r system Llys Teulu, rwy'n deall nad oes cyllid yn cael ei ddarparu i ganolfannau cyswllt ar hyn o bryd heblaw am yr hyn gan CAFCASS Cymru. Fel y gwyddoch, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu o fewn cyfyngiadau'r cyllid a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU sydd wedi lleihau cyllid i Gymru 10% dros oes y pedwerydd Cynulliad.

Diolch am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services